

Tasg 3

Say it in Cymraeg

Edrychwch ar y wefan yma:

http://www.shwmae.cymru/?page_id=462&lang=en


Edrychwch ar y patrymau iaith i helpu pobl i siarad Cymraeg:

- yn y caffi
- yn y siop
- yn y swyddfa
- yn y dafarn.


Ond beth am siarad Cymraeg ...?

- yn yr ysgol


1. Meddyliwch am 10 gair pwysig i helpu pobl i siarad Cymraeg yn yr ysgol.
Meddyliwch am 5 patrwm pwysig i helpu pobl i siarad Cymraeg yn yr ysgol.
Meddyliwch am bethau fel



Geirfa	
tafarn	pub



2. Ysgrifennwch eich syniadau chi yma:

Say it in Cymraeg ... 		
Saesneg	Cymraeg	Sut i ddweud y gair / patrwm


3. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau'ch partner chi.

4. Edrychwch ar yr animeiddiad ar: <https://www.youtube.com/watch?v=q0MZXrg7z3k>

Beth am animeiddio dau neu dri o'ch patrymau iaith chi i helpu pobl i siarad Cymraeg yn yr ysgol?

Beth am roi'r animeiddiadau ar wefan yr ysgol?



Geirfa	
animeiddiad	animation
gwefan	website



5. Gwnewch holiadur i weld:
- faint o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn dda iawn
 - faint o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn dda
 - faint o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn eitha da
 - faint o'r staff sy'n dysgu Cymraeg
 - faint o'r staff sy ddim yn siarad Cymraeg.

Yna, gwnewch graff i ddangos y canlyniadau.

Eglurwch y graff.



6. Gwnewch fideo / podlediad i ddysgu tipyn bach o Gymraeg i'r staff sy ddim yn siarad Cymraeg – neu i'r staff sy'n dysgu Cymraeg.

Defnyddiwch yr iaith rydych chi wedi trafod yng nghwestiynau 1. a 2.

Sut ydych chi'n mynd i wneud y fideo / podlediad.

Mewn grŵp:

- Ysgrifennwch y sgript. Ydych chi'n mynd i gael deialogau? Ydych chi'n mynd i roi'r animeiddiad yn y gwaith?
- Penderfynwch pwy sy'n gwneud beth.
- Cofiwch ymarfer.

Beth arall?

Os ydych chi'n gwneud podlediad, **cofiwch lanlwytho'r podlediad!**

Geirfa			
holiadur	questionnaire	defnyddio	to use
canlyniadau	results	trafod	to discuss
egluo	to explain	penderfynu	to decide
podlediad	podcast	ymarfer	to practise
tipyn bach	a little (bit of)	lanlwytho	to upload
sy ddim	who don't		